**Cyngor campus ScoutsCymru ar ysgrifennu datganiad gwych i'r wasg**

**Beth yw datganiad i'r wasg?**
Datganiad byr, ffeithiol rydych chi'n ei anfon at newyddiadurwyr (neu'n ei gyhoeddi ar eich gwefan) i rannu newyddion yw datganiad i'r wasg .

**Strwythur: sut i'w osod allan**
**1. Pennawd (uchafswm o 80 nod)**
Denwch sylw. Gwnewch y pennawd yn syml, yn ffeithiol ac yn gryno. Mae unrhyw 'Bethau Cyntaf' bob amser yn denu sylw.
*Enghraifft: Sgowtiaid y Barri yn codi £1,000 ar gyfer gardd gymunedol newydd*

**2. Paragraff agoriadol (uchafswm o 40–50 gair)**
Crynhowch y ffeithiau allweddol: pwy, beth, pryd, ble, a pham mae'n bwysig.

**3. Prif gorff (2–3 paragraff byr)**
Cofiwch gynnwys unrhyw gefndir, dyfyniadau, neu fanylion diddorol. Cadwch at y ffeithiau ac osgoi gor-ddweud.

**4. Dyfyniad (yn ddelfrydol gan berson ifanc, gwirfoddolwr neu ymwelydd e.e. person pwysig)**
Byddwch yn bersonol, yn gynnes ac yn berthnasol.
*"Roedd yn anhygoel gweld y gwahaniaeth a wnaethom," meddai'r arweinydd Sgowtiaid Bethan Evans*.

**5. Paragraff olaf**
Gorffennwch gyda'r camau nesaf, galwad i weithredu, neu ddolen.
*Enghraifft: I ddod o hyd i'ch grŵp neu wirfoddolwr lleol, ewch i [dolen]*.

**6. Nodiadau i olygyddion (dewisol)**
Ychwanegwch wybodaeth ychwanegol y gallai fod ei hangen ar newyddiadurwyr:

- Trosolwg un frawddeg o ScoutsCymru
- Manylion cyswllt
- Cydnabyddiaeth lluniau (os yn berthnasol)

**7. Hyd: pa mor hir ddylai fod?**

- Anelwch at gyfanswm o 300–400 o eiriau
- Cadwch at un ochr o A4
- Os yw'n rhy hir, ni fydd yn cael ei ddarllen

**Iaith: pa fath o naws i'w defnyddio?**

| Ie | Na |
|---|---|
| Defnyddiwch Saesneg/Cymraeg plaen – ysgrifennwch sut y byddech chi'n siarad â ffrind | Peidiwch â defnyddio jargon neu dermau mewnol (e.e. dywedwch "Sgowtiaid 6–18 oed" yn lle "Gwiwerod hyd at y Rhwydwaith") |
| Cadwch frawddegau'n fyr (uchafswm o 15–20 gair) | Peidiwch â gorwneud pethau gyda geiriau gwych – mae gormod o "arbennig" neu "anhygoel" yn colli effaith |
| Defnyddiwch iaith gadarnhaol, weithredol | Peidiwch â thybio fod pobl yn gwybod pwy ydych chi – ychwanegwch frawddeg am ScoutsCymru os oes angen |
| Canolbwyntiwch ar bobl ac effaith – beth newidiodd, pwy a elwodd | |

**Lluniau: oes eu hangen?**

Oes! Mae llun da yn helpu eich stori i sefyll allan a bydd llun yn helpu newyddiadurwyr gan nad oes rhaid iddynt chwilio am un, sy'n ei gwneud hi'n fwy tebygol y byddant yn defnyddio'r stori. Gwnewch yn siŵr:

- Fod gennych ganiatâd i'w ddefnyddio
- Ei fod yn dangos pobl ifanc neu wirfoddolwyr go iawn ar waith
- Eich bod yn cynnwys pennawd a chydnabyddiaeth (e.e. "Llun: ScoutsCymru / Joe Bloggs")

**Rhestr wirio gyflym cyn anfon**

| | |
|---|---|
| A yw'n glir beth ddigwyddodd a pham mae'n bwysig? | A yw'r enwau, dyddiadau, a'r lleoliadau'n gywir? |
| A yw'r pennawd yn fyr a bachog? | A yw o dan 400 gair? |
| A oes o leiaf un dyfyniad da? | A yw wedi cael ei brawf ddarllen? |

**At bwy i'w anfon**

- Papurau newydd lleol, gorsafoedd radio, neu wefannau
- Eich AS neu gysylltiadau yn y cyngor lleol
- Rhannwch ef gyda ScoutsCymru neu gyfryngau cymdeithasol grwpiau lleol

**Ysgrifennwch fel petaech yn adrodd stori**

Er eu bod yn ffeithiol, mae'r datganiadau gorau i'r wasg yn teimlo fel pobl go iawn yn gwneud pethau go iawn. Dechreuwch gyda'r darn mwyaf cyffrous, cadwch y cyfan yn ddynol, a gwnewch y datganiad yn hawdd ei ddilyn.

**Pwynt olaf ar ddefnyddio AI**

Gall offer AI fod yn ffordd wych o ddechrau os ydych chi'n cael trafferth neu angen drafft cyntaf yn gyflym ond nid dyna'r gair olaf! Peidiwch â dibynnu arno i gael pob ffaith yn gywir. Hyd yn oed os ydych chi wedi darparu'r wybodaeth gywir, gall barhau i wneud camgymeriadau neu ychwanegu pethau na ofynnoch chi amdanynt. Nid yw AI yn adnabod eich cynulleidfa fel chi chwaith. Rydych chi'n deall pa gywair iaith fydd yn berthnasol lleol a beth sy'n teimlo'n ddilys. Felly, defnyddiwch AI i ddechrau ond golygwch y drafft bob amser i'ch tôn llais eich hun cyn ei rannu.